OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 3041 (Cy.286)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*26 Tachwedd 2003*
Yn dod i rym - -	*28 Tachwedd 2003*

Wrth arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16(1)(a), (c) ac (e), 17(1), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ar ôl rhoi sylw, yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar ôl ymgynghori fel y mae'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**3**) sy'n pennu egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith fwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd, ac yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Ynghylch y Rheoliadau hyn —

eu henw yw Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2003, deuant i rym ar 28 Tachwedd 2003 ac maent yn gymwys i Gymru'n unig.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

mae i "awdurdod bwyd" yr un ystyr ag y sydd i "*food authority*" yn adran 5(1A) a (3)(a) a (b) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "Cyfarwyddeb 95/2/EC" ("*Directive 95/2/EC*") yw Cyfarwyddeb 95/2/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion bwyd heblaw lliwiau a melysyddion(**4**);

ystyr "cynnyrch dynodedig" ("*designated product*"), yn ddarostyngedig i baragraff (2), yw unrhyw fwyd a bennir yng Ngholofn 2 o Atodlen 1;

(**1**) 1990 p.16.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.
(**4**) OJ Rhif L61, 18.3.1995, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb 98/72/EC (OJ Rhif L295, 4.11.1998, t.18).

ystyr "defnyddiwr olaf" ("*ultimate consumer*") yw unrhyw berson sy'n prynu heblaw am y canlynol —

(a) at ddibenion ailwerthu;

(b) at ddibenion sefydliad arlwyo; neu

(c) at ddibenion busnes gweithgynhyrchu.

ystyr "disgrifiad neilltuedig" ("*reserved description*"), o ran unrhyw gynnyrch dynodedig yw unrhyw ddisgrifiad a bennir mewn perthynas â'r cynnyrch hwnnw yng Ngholofn 1 o Atodlen 1;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "Gwladwriaeth AEE" ("*EEA State*") yw Gwladwriaeth sydd yn Barti Contractio i'r Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd(**5**) a lofnodwyd yn Oporto ar 2 Mai 1992, fel y'i haddaswyd gan y Protocol(**6**) a lofnodwyd ym Mrwsel ar 17 Mawrth 1993;

ystyr "Rheoliadau 1996" ("*the 1996 Regulations*") yw Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(**7**)); ac

ystyr "sefydliad arlwyo" ("*catering establishment*") yw bwyty, ffreutur, clwb, tafarn, ysgol, ysbyty neu sefydliad tebyg (gan gynnwys cerbyd neu stondin sefydlog neu symudol) os yw bwyd, wrth gynnal busnes, yn cael ei baratoi i'w gyflenwi i'r defnyddiwr olaf ac yn barod i'w fwyta heb baratoi pellach.

(2) Er gwaethaf y ffaith bod bwyd yn cael ei bennu yng Ngholofn 2 o Atodlen 1, caiff ei drin fel "cynnyrch dynodedig" ar gyfer dibenion y Rheoliadau hyn dim ond —

(a) os cafodd ei baratoi o unrhyw ddeunydd ffrwythau a ddisgrifir yn Atodlen 2 a hynny naill ai gyda neu heb unrhyw ddeunydd crai arall a restrir yn yr Atodlen honno;

(b) os yw'n cynnwys unrhyw gynhwysyn ychwanegol, os yw'r cynhwysyn hwnnw wedi'i awdurdodi ar gyfer y bwyd dan sylw gan Atodlen 3;

(c) ac yntau'n fwyd ac iddo'r disgrifiad neilltuedig "sudd ffrwythau", "sudd ffrwythau dwysedig", "sudd ffrwythau o ddwysfwyd", neu "sudd ffrwythau dadhydradedig neu sudd powdr", os nad yw wedi'i baratoi drwy ychwanegu ato—

(i) siwgrau a sudd lemon ill dau (boed ddwysedig neu beidio), neu

(ii) siwgrau a chyfryngau asideiddio ill dau fel a ganiateir gan Gyfarwyddeb 95/2/EC,

(ch) os y'i paratowyd drwy ddefnyddio unrhyw driniaeth neu sylwedd ychwanegol, os yw'r driniaeth neu'r sylwedd wedi'u pennu yn Atodlen 4; a

(d) ac yntau'n fwyd ac iddo'r disgrifiad neilltuedig "neithdar ffrwythau", os yw'n cynnwys yr isafswm o sudd neu biwrî a bennir yn Atodlen 5 ynghyd â'r Nodyn i'r Atodlen honno.

Ystod y Rheoliadau

3. Yn ddarostyngedig i reoliad 5(e), mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chynhyrchion dynodedig a fwriadwyd ar gyfer eu bwyta gan bobl ac sy'n barod i'w cyflenwi i'r defnyddiwr olaf neu i sefydliad arlwyo.

Disgrifiadau neilltuedig

4. Ni chaiff unrhyw berson werthu unrhyw fwyd â label (boed y label wedi'i gysylltu i'r deunydd lapio neu i'r cynhwysydd neu wedi'i argraffu arnynt) sy'n ddisgrifiad neilltuedig neu'n ddisgrifiad sy'n

(**5**) OJ Rhif L1, 3.1.94, t.1.
(**6**) OJ Rhif L1, 3.1.94, t.571.
(**7**) O.S. 1996/1499, a ddiwygiwyd gan O.S. 1998/141, O.S. 1998/1398, O.S. 1998/2424, O.S. 1999/747, O.S. 1999/1136, O.S. 1999/1483, O.S. 1999/1540, O.S. 2000/768, O.S. 2000/2254, O.S. 2000/3323, O.S. 2001/2294, O.S. 2001/3442, O.S. 2001/3775 ac O.S. 2002/379.

deillio ohono neu sy'n dwyn neu'n cynnwys unrhyw ddisgrifiad o'r fath, neu sy'n air neu'n ddisgrifiad sylweddol o debyg iddo neu sy'n dwyn neu'n cynnwys unrhyw air neu ddisgrifiad o'r fath oni bai—

(a) bod bwyd o'r fath yn gynnyrch dynodedig y mae'r disgrifiad neilltuedig yn berthnasol iddo;

(b) bod disgrifiad, disgrifiad sy'n deillio ohono neu air o'r fath yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun o'r fath er mwyn dangos yn bendant neu drwy oblygiad clir mai dim ond cynhwysyn yn y bwyd hwnnw yw'r sylwedd y mae'n berthnasol iddo; neu

(c) bod disgrifiad, disgrifiad sy'n deillio ohono neu air o'r fath yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun o'r fath er mwyn dangos yn bendant neu drwy oblygiad clir nad yw'r bwyd hwnnw yn gynnyrch dynodedig nac yn cynnwys cynnyrch dynodedig.

Labelu a disgrifio cynnyrch dynodedig

5. Heb ragfarnu cyffredinolrwydd Rhan II o Reoliadau 1996, ni chaiff unrhyw berson werthu unrhyw gynnyrch dynodedig oni bai —

(a) ei fod, yn ddarostyngedig i baragraff (ch)(i), wedi'i farcio neu wedi'i labelu â disgrifiad neilltuedig o'r cynnyrch;

(b) yn achos sudd ffrwythau, sudd ffrwythau dwysedig, sudd ffrwythau o ddwysfwyd neu o sudd ffrwythau dadhydradedig neu bowdr, a felyswyd drwy ychwanegu siwgrau, yr ychwanegir y gair "sweetened" neu'r geiriau "with added sugar" at y disgrifiad neilltuedig o'r cynnyrch hwnnw, a bod disgrifiad o'r fath neu enw arall yn cael ei ddilyn gan ddatganiad (wedi'i gyfrifo fel mater sych, a'i fynegi mewn gramiau fesul litr) o fwyafswm y siwgr a ychwanegwyd;

(c) yn achos sudd ffrwythau, sudd ffrwythau dwysedig neu sudd ffrwythau o ddwysfwyd yr ychwanegwyd mwydion neu gelloedd ar wahân i, neu'n ychwanegol at, y mwydion neu'r celloedd a echdynnwyd yn wreiddiol o'r cynnyrch hwnnw, fod ei labelu'n cynnwys datganiad o ychwanegiad o'r fath;

(ch) yn achos —

(i) cymysgedd o sudd ffrwythau a sudd ffrwythau o ddwysfwyd sydd wedi'i farcio neu wedi'i labelu â'r un disgrifiad neilltuedig "fruit juice" (neu ddisgrifiad arall o'r fath y mae'n ofynnol ei gael yn lle'r disgrifiad "fruit juice" yn unol â'r amodau sy'n rhagflaenu Colofn 1 (disgrifiadau neilltuedig) yn Atodlen 1), neu

(ii) neithdar ffrwythau a gafwyd yn rhannol o un neu fwy o gynhyrchion dwysedig,

bod ei labelu yn dwyn y geiriau "partially made from concentrate" neu, yn ôl y digwydd, "partially made from concentrates", bod y geiriau hynny'n ymddangos yn agos at y disgrifiad neilltuedig, mewn llythrennau y gellir eu gweld yn eglur ac y gellir eu gwahaniaethu'n hawdd oddi wrth eu cefndir;

(d) yn achos neithdar ffrwythau a gafwyd yn rhannol o un neu fwy o gynhyrchion dwysedig, y mae ei labelu yn dwyn y geiriau "made with concentrate" neu, yn ôl y digwydd, "made with concentrates", a bod y geiriau hynny'n ymddangos yn agos at y disgrifiad neilltuedig, mewn llythrennau y gellir eu gweld yn eglur ac y gellir eu gwahaniaethu'n hawdd oddi wrth eu cefndir;

(dd) yn achos neithdar ffrwythau, mae ei labelu yn dwyn datganiad o'r isafswm o sudd ffrwythau, neu biwrî ffrwythau, neu gymysgedd o sudd ffrwythau a phiwrî ffrwythau, ei fod yn cynnwys, gyda'r geiriau "fruit content :[x] % minimum" (yn lle "[x]" mewnosoder y ffigur priodol) yn ymddangos yn yr un cylch golwg â'r disgrifiad neilltuedig; ac

(e) yn achos sudd ffrwythau dwysedig na fwriadwyd ar gyfer ei gyflenwi i'r defnyddiwr olaf, ei fod yn dwyn datganiad ar y pecyn sydd amdano, ar label sydd wedi'i gysylltu â'r pecyn sydd amdano, neu mewn dogfen sydd gydag ef, o bresenoldeb y canlynol a'r swm ohonynt sydd ynddo —

(i) siwgrau ychwanegol,

(ii) sudd lemon ychwanegol, neu

(iii) cyfryngau asideiddio fel a ganiateir gan Gyfarwyddeb 95/2/EC.

Dull marcio neu labelu

6. Bydd rheoliadau 35, 36(1) a (5) a 38 o Reoliadau 1996 (sy'n ymwneud â dull marcio neu labelu bwyd) yn gymwys i'r manylion y mae rheoliad 5 o'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol eu cynnwys wrth farcio neu labelu cynnyrch dynodedig fel pe baent yn fanylion y mae Rheoliadau 1996 yn ei gwneud yn ofynnol eu cynnwys wrth farcio neu labelu bwyd.

Cosbi a gorfodi

7.—(1) Bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes i reoliad 4 neu 5 yn euog o dramgwydd ac yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

(2) Rhaid i bob awdurdod bwyd orfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn o fewn ei ardal.

Amddiffyniad mewn perthynas ag allforion

8. Mewn unrhyw achosion o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn bydd yn amddiffyniad i unrhyw berson a gyhuddir i brofi —

(a) bod y bwyd yr honnir bod tramgwydd wedi'i gyflawni mewn perthynas ag ef wedi'i fwriadu ar gyfer ei allforio i wlad (heblaw Gwladwriaeth AEE) y mae ganddi ddeddfwriaeth gyfatebol i'r Rheoliadau hyn a bod y bwyd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth honno; a

(b) yn achos allforio i Wladwriaeth AEE, bod y ddeddfwriaeth yn cydymffurfio â darpariaethau Cyfarwyddeb y Cyngor 2001/112/EC sy'n ymwneud â suddoedd ffrwythau a chynhyrchion penodol tebyg a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl(**8**).

Cymhwyso amryw o ddarpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990.

9. Bydd darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys ar gyfer dibenion y Rheoliadau hyn gyda'r addasiad y bydd unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at y Ddeddf neu Ran ohoni yn cael eu dehongli at ddibenion y Rheoliadau hyn fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn —

(a) adran 2 (ystyr estynedig "sale" etc.);

(b) adran 3 (rhagdybiaeth bod bwyd wedi'i fwriadu i bobl ei fwyta);

(c) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

(ch) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy) fel y mae'n gymwys at ddibenion adrannau 8, 14 neu 15 o'r Ddeddf;

(d) adran 22 (amddiffyniad o gyhoeddi wrth gynnal busnes);

(dd) adran 30(8) (sy'n ymwneud â thystiolaeth ddogfennol);

(e) adran 33(1) (rhwystro swyddogion etc.);

(f) adran 33(2), gyda'r addasiad y bernir bod y cyfeiriad at "any such requirement as is mentioned in subsection 1(b) above" yn gyfeiriad at unrhyw ofynion o'r fath a grybwyllir yn adran 33(1)(b) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (e);

(**8**) OJ Rhif L10, 12.1.2002, t.58, fel y'i mabwysiadwyd gan Benderfyniad Cyd-bwyllgor AEE 99/2002 (OJ Rhif L298, 31.10.2002, t.10).

(ff) adran 35(1) (cosbi tramgwyddau), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (e);

(g) adran 35(2) a (3), i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(2) fel y'i cymhwysir gan is-baragraff (f);

(ng) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol); a

(h) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

Diwygio a dirymu

10. (1) (a) yn Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995(**9**) (i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru), yn eitem 17 o Atodlen 2, yn lle'r geiriau "Directive 93/77/EEC" rhodder y geiriau "Council Directive 2001/112/EC";

(b) yn Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995(**10**) (i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru), yn Atodlen 7 —

(i) yn lle'r geiriau "Fruit juices and nectars as defined in Directive 93/77/EEC" rhodder y geiriau "Fruit juices and nectars as defined in Council Directive 2001/112/EC";

(ii) yn lle'r geiriau "Pineapple juice as defined in Directive 93/77/EEC" rhodder y geirau "Pineapple juice as defined in Council Directive 2001/112/EC";

(iii) yn lle'r geiriau "Nectars as defined in Directive 93/77/EEC" rhodder y geiriau "Nectars as defined in Council Directive 2001/112/EC";

(iv) yn lle'r geiriau "Grape juice as defined in Directive 93/77/EEC" rhodder y geiriau "Grape juice as defined in Council Directive 2001/112/EC";

(v) yn lle'r geiriau "Fruit juices as defined in Directive 93/77/EEC" rhodder y geiriau "Fruit juices as defined in Council Directive 2001/112/EC".

(2) Yn narpariaethau'r Rheoliadau a bennir ym mharagraff (3) (ym mhob achos i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru) dileer y cofnodion sy'n ymwneud â Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Suddoedd Neithdar 1977(**11**).

(3) Dyma'r darpariaethau —

(a) Atodlen 1 i Reoliadau Bwyd (Adolygu Cosbau) 1982(**12**);.

(b) Rhan I o'r Atodlen i Reoliadau Bwyd (Adolygu Cosbau) 1985(**13**);

(c) Rhan I o Atodlen 1, Atodlen 2, Rhan I o Atodlen 3, Atodlen 6 ac Atodlen 12 i Orchymyn Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru a Lloegr) 1990(**14**));

(ch) Rhan I o Atodlen 1 i Reoliadau Diogelwch Bwyd (Allforion) 1991(**15**);

(d) Rhan I o'r Atodlen i Reoliadau Bwyd (Esemptiadau'r Lluoedd) (Dirymu) 1992(**16**)); ac

(dd) Atodlen 9 i Reoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol 1995(**17**).

(4) Dirymir y Rheoliadau canlynol drwy hyn (i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru) —

(a) Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau 1977;

(b) Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Diwygio) 1982(**18**);

(**9**) O.S. 1995/3124, y mae diwygiadau eraill iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**10**) O.S. 1995/3187, y mae diwygiadau eraill iddynt nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**11**) O.S. 1977/927.
(**12**) O.S.1982/1727.
(**13**) O.S.1985/67.
(**14**) O.S.1990/2486.
(**15**) O.S.1991/1476.
(**16**) O.S.1992/2596.
(**17**) O.S.1995/3187; y diwygiadau perthnasol yw O.S. 1997/1413, 1999/1136, 2001/1787(Cy. 128), 1440 (Cy. 102).
(**18**) O.S.1982/1311.